# Gwaelod y Garth

Cylchlythyr Wythnosol / Weekly Newsletter

**20.06.2025**




## Gair gan y Pennaeth ~ Headteacher's Greeting

Llongyfarchiadau mawr i **Ddosbarth 1E** am gyflwyno **Gwasanaeth Dosbarth** hyfryd iawn heddiw a rhannu neges bwysig am fwyta'n iach. Roedd yma berfformio gwych a chanu a dawnsio hyfryd; dwfn hefyd bu'r dysgu i bawb am bwysigrwydd bwyta'n iach a sut i wneud hynny. Diolch o bob teulu a ddaeth i wylio ac i gefnogi – a da iawn chi blant, bob un! ***Diolch** a llongyfarchiadau hefyd i bawb a ddaeth i ganu yng Nghôr Tafwyl ar ddydd Sul – canu gwych, ac am joio!*

Dim ond wythnos sydd bellach i fynd tan ein **Ffair Haf.** Diolch am bob cyfraniad sydd wedi dod atom. Gofynnwn i chi ddychwelyd pob tocyn raffl i'r ysgol yr wythnos nesa, gan gynnwys y rhai sydd heb eu gwerthu. Diolch i Eira o 3C am enw hyfryd Cymraeg i'r **Cwpanau Cyffrous** (Jolly Jars). Mae cyffro yn sicr ar y stondin yma bob blwyddyn – pa enw gwell? Da iawn ti, Eira! Diolch am bob un o'r Cwpanau Cyffrous sydd wedi ein cyrraedd. Gallwn dderbyn cwpan a chyfraniadau dosbarth (fel a nodir ar lythyr y PTA) dros yr wythnos nesa hefyd – diolch bawb!

Bydd Mabolgampau'r Meithrin hefyd yn cael eu cynnal yn yr ysgol wythnos nesa a hynny ar **Ddydd Iau, Mehefin 26 am 1.30pm** i blant meithrin bore a meithrin prynhawn. Cofiwch na fydd Meithrin y bore ar agor y diwrnod hwnnw. Os ydy eich plant yn cychwyn yn ein Meithrin ym Medi eleni, cofiwch hefyd am y Cyfarfod Croeso ar fore Dydd Iau am 9.30am.

✲ ✲ ✲ ✲ ✲ ✲

Congratulations to the children in **Dosbarth 1E** for their wonderful **Class Assembly** today and for sharing their important message about healthy eating. We were all impressed with their performances and the beautiful singing and dancing. There was also some deep learning for all about the importance of healthy eating with some top tips. **Diolch** to all who families who came to watch and to support – and well done you children, each and every one! ***Diolch** and congratulations also to all who came to sing in **Côr Tafwyl** on Sunday – great singing, and such fun! We hope you enjoyed!*

There is now only a week to go until our **Summer Fair.** Diolch for all contributions that have already arrived. We ask that you return all raffle tickets to the school next week, including those that have not been sold. Thanks to Eira from 3C for the lovely Welsh name for the **Jolly Jars** – *'Cwpannau Cyffrous!'* There's certainly excitement on this stall every year! Thank you for all the Jolly Jars that have already reached us. Please send in any remaining Jolly Jars and class contributions (as stated on the PTA letter) over the next week – Diolch, thank you, to you all!

The Nursery Sports Day will be held in the school next week on **Thursday, June 26 at 1.30pm** – all nursery children will attend the afternoon session. Please note that morning Nursery will not be open on Thursday. If your children start at our Meithrin in September this year, don't forget about the Welcome Meeting on Thursday morning at 9.30am.

## Dyddiadau Pwysig
## *Important Dates*

**26.06.25 @ 9.30am**
Cyfarfod Croeso Meithrin
Nursery Welcome Meeting

**26.06.25 @ 1.30pm**
Mabolgampau Meithrin
Nursery Sports Day

**27.06.25 Gwener / Friday**
Ffair Haf
*Summer Fair*

**02.07.25 @ 2.30am**
Cyfarfod Croeso Derbyn
Reception Welcome Meeting

**04.07.25 Gwener / Friday**
Gwasanaeth Dosb. Derbyn
*Reception Class Assembly*

**16.07.25 Mercher / Weds**
Gwasanaeth Ymadael B6
*Y6 Leavers' Assembly*

---

Cofiwch am ein calendr byw ar dudalen cartref y wefan.

*Our live calendar is on our school website's homepage.*

Dyddiadau Bws Beics Tymor yr Haf 4.7.25
Summer Term Bike Bus Dates 11.7.25

Croeso cynnes i aelodau newydd!
*New members <u>always</u> welcome!*

Hyfryd gweld 26 o blant a 14 oedolyn ar y Bws Beics heddiw!
Great to see 26 children and 14 adults on the Bike Bus today!








Diolch 1E am y gwasanaeth - gwych!

Diolch 1E for today's fantastic assembly!

## Cymro / Cymraes yr Wythnos

## Welsh learners of the week







## Dysgwyr yr Wythnos

## Learners of the week